Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eich cyf: | | Gofynnwch am: | Michelle Morris |
| Ein cyf: | MAM/mm | ☎ | [redacted] |
| Dyddiad: | 12 Rhagfyr 2023 | ✉ | [redacted] |

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

**Trwy e-bost yn unig**
SeneddCyllid@senedd.cymru

Annwyl Peredur

**Adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion**
Cyfeiriaf at eich llythyr o 18 Hydref am eich adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion. Diolch am ymgynghori â mi ar hyn.

**Eglurder y sefyllfa ariannu yn y sector cyhoeddus**
Mae eich llythyr yn archwilio rhai o'r heriau sy'n ymwneud ag amseriad ein Hamcangyfrif, yn benodol, lle nad yw'r amseru cyfredol yn cyd-fynd yn dda â digwyddiadau ariannol y DU. Cydnabyddaf fod y sefyllfa wedi'i chymhlethu gan oedi ac ansicrwydd o ran cyhoeddiadau a phenderfyniadau ariannol y DU, ond mae'r amseru presennol yn peri anawsterau. Caiff ein Hamcangyfrif ei pharatoi ym mis Medi, i'w hystyried gan eich Pwyllgor ym mis Hydref. Mae hynny 6 mis cyn dechrau'r flwyddyn. Pan fo cyllid cyhoeddus a chwyddiant yn ansicr ac yn gyfnewidiol, mae hynny'n golygu y gall rhagdybiaethau, er enghraifft ynghylch chwyddiant a dyfarniadau cyflog, fod yn sylweddol hen erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

**Annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru a Chyllidebau Atodol.**
Croesawaf eich sylwadau am annibyniaeth cyrff a ariennir yn uniongyrchol a'ch bwriad i egluro hyn ar dudalennau gwe eich Pwyllgor. Er y byddai mwy o eglurder yn ddefnyddiol, mae'r mater mwy sylweddol yn ymwneud â'r ddibyniaeth ar Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â chyllideb atodol gan gorff a ariennir yn uniongyrchol yn dilyn cefnogaeth y Pwyllgor Cyllid. Fel y mae eich llythyr yn nodi, nid yw'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ddod â chyllideb atodol yn ei blaen yn dilyn cyflwyniad gan gorff a ariennir yn uniongyrchol. Mae hynny, yn y bôn, yn herio'r egwyddor o annibyniaeth ac yn caniatáu i Lywodraeth Cymru wrthod cyllidebau atodol gan gyrff a ariennir yn uniongyrchol. Gan fod gan yr holl gyrff a

ariennir yn uniongyrchol ryw lefel o oruchwyliaeth dros Lywodraeth Cymru, nid yw hynny'n briodol.

Nid oes gennym unrhyw gronfeydd wrth gefn a dim arian i'w drosglwyddo drosodd, felly mae proses y gyllideb atodol o gryn bwysigrwydd i ni. Caiff ein cyllideb ei defnyddio gan mwyaf gan gostau staff ac yn bennaf gan adeiladau sefydlog a chostau TG. Felly, ychydig iawn o hyblygrwydd sydd gennym yn ein cyllideb ac mae'r camau cyfyngedig y gallem eu cymryd i wrthbwyso pwysau cost annisgwyl (er enghraifft, peidio â llenwi swyddi gwag) yn creu ansefydlogrwydd ac yn effeithio'n andwyol ar gyflenwi gwasanaeth. Proses y gyllideb atodol yw'r unig ffordd sydd gennym o reoli pwysau ariannol newydd sylweddol ac, os caiff ei chefnogi gan eich Pwyllgor, mae'n bwysig y caiff cynnydd ei wneud yn brydlon ar gyllidebau atodol.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru, hyd yma, wedi cymryd cyllidebau atodol a gynigiwyd gan gyrff a ariennir yn uniongyrchol ac a gefnogir gan eich Pwyllgor. Fodd bynnag, i roi sylw i'r risg hon i annibyniaeth, byddwn yn cefnogi diwygiadau i Reolau Sefydlog sy'n ei gwneud yn **ofynnol** i bob pwrpas i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen (yn amodol ar ganlyniad ystyriaeth eich Pwyllgor) â'r cyllidebau atodol a geisir gan gyrff a ariennir yn uniongyrchol, o fewn cyfnod penodol. Rwy'n ymwybodol efallai na chaiff y newid hwn ei gyflawni'n gyflym, ac yn y cyfamser, gallai fod yn ddefnyddiol pe bai eich Pwyllgor yn adrodd ar wahân ar gyllidebau atodol gan gyrff a ariennir yn uniongyrchol (yn hytrach nag ymgorffori hyn yn yr adroddiad ar eich gwaith craffu ar Gyllideb Atodol gyffredinol Llywodraeth Cymru) ac yn gwneud argymhelliad penodol i Lywodraeth Cymru bod cynnydd yn cael ei wneud ar gyllidebau atodol gan gyrff a ariennir yn uniongyrchol drwy'r Senedd o fewn cyfnod penodol. Byddai'r newidiadau hyn yn adlewyrchu ac yn cefnogi annibyniaeth cyrff a ariennir yn uniongyrchol. Byddent hefyd yn rhoi mwy o reolaeth i gyrff a ariennir yn uniongyrchol pan fyddant yn cyflwyno cyllidebau atodol yn ogystal â chaniatáu i'ch Pwyllgor ystyried materion yn annibynnol, yn hytrach na gweithio yn unol ag amserlenni Llywodraeth Cymru.

Gobeithiaf fod yr ymateb hwn yn gyfraniad defnyddiol i'ch ystyriaeth.

Yn gywir

**Michelle Morris**
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus